COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 24 CHWEFROR 2026 10:00

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

A R Berrow S J Bletsoe O Clatworthy J E Pratt

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kirsty Evans | Rheolwr Tîm Trwyddedu |
| Katie Wintle | Cyfreithiwr – Tîm Ymgyfreitha |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro – Pwyllgorau |

**95. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Chwefror 2026 |

**96. Datganiadau o fuddiant**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Gwnaed y datganiadau buddiant canlynol:-<br><br>• Fe wnaeth Katie Wintle ddatgan buddiant personol yn eitem 4, gan ei bod yn adnabod yr ymgeisydd, ond pwysleisiodd and oedd yn cymryd rhan o gwbl yn y penderfyniad.<br>• Fe wnaeth y Cynghorydd Owain Clatworthy ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 9, gan ei fod yn |

| | |
|---|---|
| | adnabod yr ymgeisydd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Chwefror 2026 |

## 97. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu A dyddiedig 15 Gorffennaf 2025 a 14 Tachwedd 2025 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Chwefror 2026 |

## 98. Rhoi Trwydded Cerbyd Hurio Preifat

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu adroddiad a diben hwn oedd gofyn i'r Aelodau benderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni oedd yn syrthio y tu allan i ganllawiau polisi oedran y Pwyllgor Trwyddedu.<br><br>Roedd Mr Grabham, yr ymgeisydd, yn bresennol yn y cyfarfod.<br><br>Gofynnodd yr ymgeisydd am drwydded cerbyd hacni ar gyfer ei gerbyd trydan hybrid Ford Mondeo. Roedd y cerbyd yn 5 mlynedd ac 1 mis oed, oedd yn hŷn na'r hyn a ganiateir gan bolisi'r Is-bwyllgor. Gofynnodd yr ymgeisydd i'r is-bwyllgor, er gwaethaf oed y cerbyd, wyro oddi wrth ei bolisi yn yr achos hwn ac ystyried caniatáu trwydded cerbyd.<br><br>Yna gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod er mwyn archwilio'r cerbyd yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr. Sylwasant fod y milltiredd bellach yn 79,800. Sylwodd yr Aelodau hefyd fod y Cerbyd mewn cyflwr da.<br><br>O ran y Polisi Trwyddedu Cerbydau yn ôl Oedran, ar 17 Tachwedd 2020, mabwysiadodd y Pwyllgor Trwyddedu ofynion oedran ar gyfer trwyddedu cerbydau i'w defnyddio fel cerbydau hacni neu ar gyfer llogi preifat. Roedd manylion y rhannau perthnasol o'r polisi i'w gweld yn yr adroddiad.<br><br>Talodd yr is-bwyllgor sylw i'r bwriad y tu ôl i'r polisi, sef hyrwyddo fflyd fodern o gerbydau trwyddedig a sicrhau diogelwch y cyhoedd.<br><br>Aeth yr aelodau o'r neilltu wedyn i ystyried y cais ymhellach, ac ar ôl iddynt ddychwelyd, |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNODD: yr is-bwyllgor yn unfrydol i wyro oddi wrth ei bolisi a chaniatáu'r cais yn amodol ar y gofynion arferol am archwiliad am y rhesymau canlynol:<br><br>a) Bod y cerbyd mewn cyflwr da.<br><br>Dim ond mymryn oedd y cerbyd dros y cyfnod penodedig o amser a ganiateid gan y polisi. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Chwefror 2026 |

## 99. Rhoi Trwydded Cerbyd Hurio Preifat

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu adroddiad a diben hwn oedd gofyn i'r Aelodau benderfynu ar gais i ganiatáu trwydded cerbyd hacni oedd yn syrthio y tu allan i ganllawiau polisi oedran y Pwyllgor Trwyddedu.<br><br>Roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod.<br><br>Gofynnodd yr ymgeisydd am drwydded cerbyd hacni ar gyfer cerbyd diesel BMW. Roedd y cerbyd yn 5 mlynedd a 2 fis oed, oedd yn hŷn na'r hyn a ganiateir gan bolisi'r Is-bwyllgor. Gofynnodd yr ymgeisydd i'r is-bwyllgor, er gwaethaf oedran y cerbyd, wyro oddi wrth ei bolisi yn yr achos hwn ac ystyried caniatáu trwydded cerbyd.<br><br>Yna gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod er mwyn archwilio'r cerbyd yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr. Sylwasant fod y milltiredd bellach yn 114,590. Sylwodd yr Aelodau hefyd fod y Cerbyd mewn cyflwr da.<br><br>O ran y Polisi Trwyddedu Cerbydau yn ôl Oedran, ar 17 Tachwedd 2020, mabwysiadodd y Pwyllgor Trwyddedu ofynion oedran ar gyfer trwyddedu cerbydau i'w defnyddio fel cerbydau hacni neu ar gyfer llogi preifat. Roedd manylion y rhannau perthnasol o'r polisi i'w gweld yn yr adroddiad.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau i'r ymgeisydd ynghylch milltiredd datganedig y cerbyd ers cyflwyno'r cais, pan eglurwyd bod y milltiredd a nodwyd wedi ei roi pan gafodd ei brawf MOT diwethaf.<br><br>Talodd yr is-bwyllgor sylw i'r bwriad y tu ôl i'r polisi, sef hyrwyddo fflyd fodern o gerbydau trwyddedig a |

| | |
|---|---|
| | sicrhau diogelwch y cyhoedd.<br><br>Aeth yr aelodau o'r neilltu wedyn i ystyried y cais ymhellach, ac ar ôl iddynt ddychwelyd,<br><br>PENDERFYNODD: yr is-bwyllgor yn unfrydol i wyro oddi wrth ei bolisi a chaniatáu'r cais yn amodol ar y gofynion arferol am archwiliad am y rhesymau canlynol:<br><br>a) Bod y cerbyd mewn cyflwr da.<br>Bod y milltiredd, a nodwyd ers ei brawf diwethaf, yn rhesymol ar gyfer cerbyd a ddefnyddid i'w logi'n breifat |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Chwefror 2026 |

## 100. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Chwefror 2026 |

## 101. Gwahardd y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Na ddylid cyhoeddi'r eitemau canlynol am eu bod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 ac/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y cafodd ei diwygio gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007.<br><br>Ar ôl cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynodd yr Is-bwyllgor, yn unol â'r Ddeddf, y dylid ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Chwefror 2026 |

## 102. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod cofnodion eithriedig cyfarfodydd Is-bwyllgor Trwyddedu A dyddiedig 15 Gorffennaf 2025 a 14 Tachwedd 2025 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Chwefror 2026 |

## 103. Gwrandawiad Disgyblu

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: roedd y penderfyniad hwn wedi'i eithrio |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Chwefror 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 11:30